



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

BLUESKY DATA...

Ffenestr i'r gorffennol

George Dey: Rheolwr Datblygu Busnes, [Bluesky International](#)



Ynys Enlli.

Mae Bluesky, cwmni mapio o'r awyr, wedi defnyddio LiDAR i greu mapiau 3D o safleoedd archaeolegol a thirweddau trefol ar hyd a lled y DU. Mae'n berchen ar nifer o synwryddion a ddefnyddir ganddo ar awyrennau i dynnu awyrluniau a chasglu data LiDAR eithriadol o fanwl. Un o'r rhain yw'r Leica City Mapper, synhwyrdd awyrennol hybrid cyntaf y byd sy'n cyfuno delweddaeth fertigol ac arosgo a laser-sganio 3D.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Mae LiDAR wedi hen ennill ei blwyf fel offeryn gwerthfawr mewn astudiaethau o'r dirwedd archaeolegol gan ei fod yn darparu modelau manwl o arwyneb y ddaear ac yn caniatáu i ddata gael ei ail-ddelweddu mewn nifer o ffyrdd i gynnig gwahanol olygon o'r un safle, ac mewn ardaloedd coediog gellir ei ddefnyddio i ddatgelu nodweddion sydd yn aml yn anhygyrch i arolygon maes archaeolegol ac yn ddidraidd i arolygon traddodiadol o'r awyr. Mae cyfuno'r data LiDAR â delweddu isgoch a thermol yn ychwanegu lefel arall o wybodaeth a dealltwriaeth, yn enwedig mewn tirweddau trefol hanesyddol. Rhoddir sylw yn y sgwrs i'r gwahanol synwryddion a weithredir gan Bluesky, a defnyddir astudiaethau achos i drafod datblygiad technolegau pell-synhwyro o'r awyr a chymwysiadau'r technolegau hyn ym maes treftadaeth.



Next Perspectives PGA Imagery SY0387 22-MAY-2010.
© Bluesky International/Getmapping PLC.

0 15 30 60 90 120
Meters



LIDAR SY0387 Bluesky International DTM 24-apr-2016
© Devon County Council

0 15 30 60 90 120
Meters

Castell Woodbury, Dyfnaint.

Bywgraffiad

Mae George Dey yn aelod anhepgor o dîm Bluesky International. Ar ôl ymuno yn 2017, roedd wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r ffrwd fusnes ar draws amrywiaeth eang o sectorau marchnad, gan annog symud mapio o 2D i 3D. Yn dilyn buddsoddiad diweddar Bluesky mewn Leica CityMapper, mae George wedi bod yn arwain y gwaith o addysgu defnyddwyr ar draws gwahanol farchnadoedd ynghylch manteision data Bluesky a'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gynnal arolygon o'r awyr.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.